

Dyddiad / Date	6 Medi 2024
Gofynner am / Please ask for	Ian Llewelyn
E-bost / Email	IRLlewelyn@sirgar.gov.uk
Ffôn / Telephone	01267228818
Fy nghyf / My ref	

Annwyl Arolygwyr / Dear Inspectors,

Ynghylch: CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN (2018-2033)
ARCHWILIAD: CWESTIYNAU CYCHWYNNOL YR AROLYGWYR

Mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf 2024, gweler ymateb y Cyngor i'ch cwestiynau cychwynnol sy'n rhoi eglurhad a'r wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani.

Materion Gweithdrefnol

Yn ystod y sesiynau gwrandawriad, efallai y bydd angen i'r partïon drafod a chytuno ynghylch newidiadau i strwythur a/neu gynnwys y CDLI diwygiedig. Er mwyn sicrhau bod y broses hon yn cael ei chynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Cyngor gadarnhau y bydd swyddog, sydd ag awdurdod dirprwyedig i wneud newidiadau i'r CDLI diwygiedig ac i gytuno ynghylch paratoi tystiolaeth ychwanegol, yn bresennol ym mhob sesiwn gwrandawriad.

Ymateb

Gall y Cyngor gadarnhau bod swyddogion wedi dirprwyo awdurdod o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor i gytuno ar newidiadau a allai fod yn ofynnol ac y bydd swyddog gyda'r awdurdod hwnnw yn bresennol ym mhob sesiwn gwrandawriad. Mae'r darn perthnasol o'r Cynllun Dirprwyo wedi'i nodi isod. Fodd bynnag, nodir, y bydd angen cyfeirio at weithdrefnau adrodd mewnol yn ôl yr angen drwy'r Cynllun Dirprwyo lle mae unrhyw newidiadau'n sylweddol ac yn ymwneud â diwygiadau i strategaeth y Cynllun. Er y rhagwelir y bydd amgylchiadau o'r fath yn annhebygol, byddwn yn sicrhau bod darpariaethau ar waith i sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu hwyluso'n effeithlon.

'Cytuno ar fân newidiadau i Gynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin neu unrhyw gynllun dilynol nad ydynt yn golygu newid sylfaenol i strategaeth waelodol y cynllun

fel y'i cytunwyd gan y Cyngor Sir. Awdurdod i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd newid y polisiau lle mae gwallau cartograffig, gwallau argraffu, gwrthwynebiadau neu newidiadau wedi'u gadael allan er mwyn adlewyrchu polisiau a chanllawiau sy'n deillio o Lywodraeth Cymru.'

Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Yng ngoleuni gofynion Polisi 19 Cymru'r Dyfodol, sy'n darparu fframwaith ar gyfer Polisiau Strategol o ran Cynllunio Rhanbarthol, byddai o gymorth pe gallai'r Cyngor gadarnhau na fyddai'r polisiau a'r dyraniadau yn y CDLI diwygiedig, yn benodol mewn perthynas â'r gofyniad o ran tai a chyflenwi tai, yn cael effaith andwyol ar lunio neu gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer De-orllewin Cymru yn y dyfodol.

Ymateb

Mae'r Cyngor o'r farn bod cynnwys y CDLI Diwygiedig yn cydymffurfio â chynnwys Cymru'r Dyfodol gan gynnwys Polisi 19. Yn benodol, mewn perthynas â'r gofyniad tai a chyflenwad, ni fyddai'n cael effaith andwyol ar ddatblygu a chyflwyno'r Cynllun Datblygu Strategol sydd i ddod. Cyfeirir at yr ymateb a ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru (Sylw Rhif 5541) mewn perthynas â'r 2^{il} CDLI Diwygiedig Adneuo sy'n nodi:

Mae'r datganiad cydymffurfio canlynol yn 'ymateb gyda chafeat'. Hyd nes yr eir i'r afael â'r materion a godwyd yn Atodiad 2 y llythyr hwn ynghylch anghysondebau sylfaenol â chyfanswm y ddarpariaeth tai, a bod eu goblygiadau'n cael eu deall, nid yw'n bosibl rhoi barn gadarn ar faterion cydymffurfiaeth ar hyn o bryd. Mae'r datganiad canlynol 'yn seiliedig ar yr hyn a nodir ym Mholisi SP4 ar hyn o bryd, sef darpariaeth tai o 9,704 o gartrefi, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ategol a'r rhan fwyaf o'r twf hwn wedi'i leoli yn yr aneddiadau Haen 1 a Haen 2. (Gweler sylwadau manwl yn Atodiad 2)

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Gaerfyrddin (2018-2033) yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol, fel y nodir ym mharagraffau 2.16 – 2.18 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3).

***Graddfa'r Twf:* Mae Polisiau 1 a 28 Cymru'r Dyfodol yn nodi Bae Abertawe a Llanelli fel Ardal Dwf Genedlaethol, wedi'u hategu gan nodi'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol yng Nghaerfyrddin a Dyffryn Teifi (Polisiau 1 a 29). Gyda'i gilydd, dylai'r lleoedd hyn fod yn ganolbwynt ar gyfer twf, trafnidiaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cynaliadwy. Yn ogystal, mae Polisiau 4 a 5 yn cefnogi tai gwledig priodol (yn enwedig tai fforddiadwy) a thwf economaidd mewn cymunedau gwledig, i gefnogi creu cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran ac i helpu i wrthdroi diboblogi lle nodwyd bod hyn yn broblem. Lefel y cartrefi a gynigir yn y CDLI Adneuo yw 8,822 o gartrefi dros gyfnod y cynllun, cynnydd o 4,450 o gartrefi uwchben prif amcanestyniad 2018 ac 11% yn uwch na chyfraddau adeiladu'r pum mlynedd diwethaf. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y senario hwn yn cynnig rhagolwg cadarnhaol**

o ran demograffeg ac yn economaidd, gan ganiatáu hyblygrwydd i sbarduno twf tai cynaliadwy. Mae'r Cyngor yn nodi y bydd y lefel hon o dwf yn helpu i gyflawni Bargaen Ddinesig Abertawe, amcanion adfywio'r Cyngor ac yn sicrhau y darperir cartrefi fforddiadwy. Mae'r raddfa hon o ddyhead yn cyd-fynd â rôl y Sir o fewn ardal dwf genedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn wedi'i ategu gan 71.21ha o dir cyflogaeth (Polisi SP7) i helpu i ddarparu o leiaf 4,140 o swyddi newydd (276 o swyddi y flwyddyn), a fydd yn helpu i leihau diboblogi gwledig o bobl oedran gweithio ac yn cefnogi'r laith Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol. Gyda'i gilydd, mae'r dulliau hyn yn cefnogi'r Sir fel un sydd â rôl allweddol yn yr ardal dwf genedlaethol, sy'n cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol.

Dosbarthiad y twf: *Mae'r CDLI wedi ymgymryd â dadansoddiad o rôl a swyddogaeth aneddiadau. Mae strategaeth y Cyngor yn ddull hybrid sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau, buddsoddiadau, a buddion economaidd y Fargaen Ddinesig, wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig. Polisi SP3: Dosbarthiad Cynaliadwy, yn nodi 6 chlwestwr. O fewn pob chlwestwr mae ardal sydd â chysylltiad swyddogaethol gyda 4 haen anheddiad yn cynnwys Haen 1: Prif Ganolfannau, Haen 2: Canolfannau Gwasanaeth, Haen 3: Pentrefi Cynaliadwy a Haen 4: Pentrefi Gwledig. Mae dros 80% o dwf tai a 90% o dir cyflogaeth wedi'u lleoli yn yr aneddiadau Haen 1 a Haen 2 mwy cynaliadwy. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol ac mae'n taro cydbwysedd priodol o leoli twf i aneddiadau mwy cynaliadwy, tra hefyd yn cefnogi cymunedau gwledig.*

Polisi 19 – Cynllunio Rhanbarthol a Pholisi 28 - Ardal Dwf Genedlaethol: *Mae Cymru'r Dyfodol yn dod â phersbectif newydd y mae'n rhaid i bob CDLI ei groesawu, sef sut mae pob CDLI yn eistedd o fewn y rhanbarth cyfan a'r berthynas â CDLlau eraill, yn ei hanfod ymagwedd strategol tuag at gynllunio cyn cychwyn ffurfiol y Cynlluniau Datblygu Cynaliadwy.*

Nodwn fod y rhanbarth wedi cynhyrchu 'Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffiniad Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli'. Cefnogir cydweithio rhanbarthol, a chroesewir paratoi tystiolaeth ar y cyd. Fodd bynnag, mae angen eglurhad pellach i ddeall sut mae lefel y twf a gynigir yn ategu awdurdodau cyfagos a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi'r Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach. Mae'r pwynt hwn yn arbennig o berthnasol o ystyried y diffyg tryloywder ar lefel y ddarpariaeth tai ar hyn o bryd.

Sylwadau eraill i'w hystyried

Nid yw'r Cynllun ei hun yn sôn llawer am Gymru'r Dyfodol a'i ddylanwad ar raddfa a lleoliad twf, a'r polisiau yn y Cynllun. Dylid gwneud hyn yn fwy eglur. Gweler hefyd sylwadau penodol yn Atodiad 2 ynghylch ynni adnewyddadwy, ystyried tir BMV a Chymru'r Dyfodol.

Cyfeirir at y Datganiad Sefyllfa mewn perthynas â Chydweithio Rhanbarthol (CSD67). Paratowyd y datganiad hwn ar y cyd â'r awdurdodau cynllunio lleol eraill ar draws y rhanbarth. Gan adlewyrchu ei statws drafft, bydd y datganiad hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i'r CDLlau priodol ym mhob ardal awdurdod symud ymlaen drwy'r broses newydd. Mae'n ceisio rhoi trosolwg o faterion trawsffiniol a chynllunio strategol ar gyfer rhanbarth de-orllewin Cymru ac yn dangos sut y mae Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI), lle maent yn cael eu hadolygu, yn cael eu paratoi

gan ystyried dealltwriaeth y cytunir arni o'r materion a'r gofynion yn rhanbarth De-orllewin Cymru fel y'u diffinnir yng Nghymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae hefyd yn rhoi amlinelliad o gydweithio mewn perthynas â chasglu tystiolaeth o ran llywio'r gwaith o baratoi'r CDLLau newydd ond hefyd y Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a fydd yn cael eu paratoi dan adain Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Cyfeirir at baragraffau 5.16 - 5.19 a Thabl 1: Y Gofyniad o ran Tai ar gyfer y datganiad sefyllfa mewn perthynas â thai. Dylid nodi nad oedd y datganiad hwn yn fecanwaith i ystyried y lefel ranbarthol o dwf tai nac i ystyried materion yn ymwneud â dosraniadau ledled y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'n dangos yn glir, pe bai'r ffigurau gofynion tai priodol mewn unrhyw Gynlluniau Adneuo a gyhoeddwyd ynghyd â ffigurau'r angen am dai sy'n dod i'r amlwg gan awdurdodau sy'n datblygu cynlluniau newydd yn cael eu mabwysiadu (gweler Tabl 1 y datganiad sefyllfa), yna byddent yn cyd-fynd yn fras â'r ffigur ranbarthol o 25,600 yng Nghymru'r Dyfodol. Mae hefyd yn cefnogi mai Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli fydd y ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-orllewin yn unol â Pholisi 28 Cymru'r Dyfodol.

Dylid nodi y byddai'n fater i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol i ystyried yr angen am dystiolaeth ranbarthol ar boblogaeth a thai fel rhan o'i baratoi.

Cyfeirir hefyd at Ddogfennau Cyflwyno CSD34 a CSD40 mewn perthynas ag Adroddiad Tai a Thwf Economaidd ac Adroddiad Ymchwil Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli.

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 12 (Chwefror 2024)

Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (PPW) gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024. Mae'r diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru wedi'u cynnwys yn bennaf ym mhennod 6 ac maent yn ymwneud â budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (gan ymgorffori newidiadau i gryfhau polisi ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, coed a choetiroedd a seilwaith gwyrdd).

I gynorthwyo'r archwiliad, byddem yn ddiolchgar pe gallech adolygu cynnwys y bennod 6 ddiwygiedig a darparu ymateb sy'n esbonio sut y mae gofynion Polisi Cynllunio Cymru wedi cael sylw neu unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen i'r CDLI diwygiedig a gyflwynwyd.

Ymateb

I grynhoi, mae'r prif newidiadau a wnaed i Bennod 6 yn cynrychioli gwelliannau sylweddol i sicrhau bod cynllunio datblygu yn blaenoriaethu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Diweddariad hanfodol yw'r gofyniad i bob datblygiad sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth, gan fynd i'r afael â'r dirywiad a gofnodwyd mewn cynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r polisi yn mandadu dull fesul cam lle mae'n rhaid i ddatblygwyr osgoi niwed i fioamrywiaeth yn gyntaf, wedyn lleihau a lliniaru unrhyw effeithiau na ellir eu hosgoi, ac, fel dewis olaf, darparu iawndal. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchedd yn hytrach na'i niweidio. Yn ogystal, mae'r diwygiadau yn pwysleisio integreiddio seilwaith gwyrdd i brosesau cynllunio. Mae diogelu safleoedd dynodedig, fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a mawndiroedd, hefyd yn cael ei gryfhau, ac mae datblygiad yn yr ardaloedd hyn yn gyfyngedig iawn oni bai ei fod yn cyfrannu'n uniongyrchol at eu cadwraeth neu eu gwytnwch. Yn unol â pholisi cenedlaethol arall, mae'r dull hwn yn adlewyrchu ymrwymiad cryfach i gynaliadwyedd a diogelu adnoddau naturiol yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae'r CDLI Diwygiedig yn parhau i gyd-fynd yn dda â PCC o ystyried y pwyslais a roddir ar greu lleoedd cynaliadwy, gwella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, a diogelu a rheoli adnoddau naturiol. Er y rhoddwyd ystyriaeth drwy gydol y CDLI diwygiedig i gefnogi gwneud lleoedd unigryw a naturiol, yn benodol mewn ymateb i fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd a glas (SGG) drwy bolisiâu SP14, NE1, NE2, NE3, PSD3, a PSD4. Mae'r polisiâu hyn yn adlewyrchu gofynion allweddol megis diogelu safleoedd dynodedig, cynnal a gwella cysylltedd ecolegol, a sicrhau manteision net i fioamrywiaeth. Maent hefyd yn ymgorffori'r hierarchaeth liniaru ac yn cydnabod pwysigrwydd SGG o fewn datblygiad newydd, sy'n gyson â phwyslais PCC wedi'i ddiweddarau ar integreiddio ystyriaethau seilwaith ecolegol a gwyrdd. Fodd bynnag, mae yna feysydd lle gellid mireinio neu gryfhau'r polisiâu CDLI diwygiedig i adlewyrchu gofynion diwygiedig Pennod 6 yn well.

Isod mae dadansoddiad o aliniad pob polisi gyda Phennod 6 PCC wedi'i diweddarau ac awgrymiadau ar gyfer newidiadau i gynnwys y CDLI Diwygiedig (dylid nodi y dylid cyfeirio hefyd at yr ymatebion mewn perthynas â'r sesiynau gwrandawriad unigol – yn enwedig sesiynau 1 a 5):

SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Mae Polisi SP14 yn cyd-fynd â Phennod 6 PCC wedi'i ddiweddarau drwy bwysleisio diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys yr angen i osgoi effeithiau andwyol arwyddocaol ar safleoedd dynodedig, cyfrannu at wytnwch ecosystemau, a darparu buddion net i fioamrywiaeth. Mae'n cyd-fynd â'r gofyniad i integreiddio egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac ystyried Datganiad Ardal De-orllewin Cymru CNC. Fodd bynnag, gallai SP14 gryfhau aliniad y polisi â PCC drwy ychwanegu'r cyfeiriadau penodol canlynol:

- Sôn yn benodol am 'Wytnwch Ecosystemau' a 'Rhwydweithiau Ecologol Cydnerth'. Gan nodi bod Pennod 6 yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio hefyd ystyried a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau yn unol â Fframwaith DECCA.
- Mae'r defnydd o Ddatganiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas eisoes wedi'i nodi yn PSD3. Fodd bynnag, gellid diwygio'r polisi hwn neu ei destun ategol hefyd i ymgorffori'r angen i ymgeiswyr gynhyrchu Datganiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas.

NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol

Mae Polisi NE1 yn cyd-fynd â ffocws Pennod 6 ar ddiogelu dynodiadau anstatudol (e.e., Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd o Bwys ar gyfer Gwerth Cadwraeth Natur, Safleoedd Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol). Mae'n dilyn yr hierarchaeth liniaru ac mae angen mesurau digolledu neu dystiolaeth o resymau hollbwysig dros ddatblygiad lle na ellir osgoi effeithiau andwyol. Mae'r polisi yn gyson â'r gofyniad i beidio â cholli cynefinoedd na rhywogaethau yn sylweddol, a darparu buddion net i fioamrywiaeth. Fodd bynnag, gellir ystyried y newidiadau canlynol:

- Gan fod Pennod 6 yn rhoi pwyslais sylweddol ar y cysylltedd rhwng cynefinoedd a nodweddion (yn enwedig mewn rhwydweithiau ecologol cydnerth), dylai NE1 dynnu sylw at bwysigrwydd cynnal cysylltedd ecologol yn fwy penodol. Er bod y mater hwn eisoes wedi'i gwmpasu yn NE3, gellid sôn am gollu cysylltedd penodol â Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol.
- er nad yw'n cynrychioli dynodiad lleol neu genedlaethol, gellid cyfeirio at fawndiroedd gan fod paragraff 6.4.34 PCC yn nodi "Os nodir bod mawnog yn rhan o gynnig ar gyfer datblygiad, dylid rhoi pwys mawr ar ei amddiffyn oherwydd pwysigrwydd arbennig ei gyfraniad at gynnal adnoddau naturiol cenedlaethol fel carbon pridd, bioamrywiaeth a rheoli llifogydd ac oni cheir ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill sy'n awgrymu fel arall, bydd yn rhaid gwrthod caniatâd."
- dylid diweddarau cyfeiriad at yr 'hierarchaeth liniaru' i'r 'dull fesul cam' (drwy gydol y cynllun) er mwyn sicrhau cysondeb ymhellach.

NE2: Bioamrywiaeth

Mae Polisi NE2 yn cyd-fynd â phwyslais diwygiedig Pennod 6 ar ddyletswydd Adran 6 (Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad gyfrannu at fudd net a gwytnwch bioamrywiaeth sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â PCC. Fodd bynnag, gellid cyfeirio at yr angen i ystyried gwybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Datganiadau Ardal, Cynlluniau Natur Lleol, Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r hyn a ddelir gan Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol o fewn y system gynllunio (6.4.3). Yn ogystal, dylid diwygio'r polisi i sicrhau cysondeb â'r dull fesul cam.

NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw

Mae Polisi NE3 yn cyd-fynd â phwyslais Pennod 6 ar gynnal a gwella coridorau, rhwydweithiau a nodweddion ecolegol unigryw. Fel y soniwyd yn flaenorol, byddai diweddarau'r hierarchaeth liniaru i'r dull fesul cam yn parhau i gyfrannu at liniaru effeithiau andwyol wrth ofyn yn fwy rhagweithiol am welliannau i gysylltedd ecolegol, lle bynnag y bo'n bosibl (ac yn unol â Budd Net i Fioamrywiaeth). Unwaith eto, bydd angen cynnwys cyfeiriad penodol at Fframwaith DECCA o fewn testun ategol y polisi.

PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas

Mae Polisi PSD3 yn cyd-fynd yn agos â gofynion Pennod 6 ar Seilwaith Gwyrdd er gwaethaf tynnu sylw at bwysigrwydd asedau glas yn fwy penodol. Mae'n pwysleisio cadw, gwella, a chysylltu asedau Seilwaith Gwyrdd presennol a chyflawni amlswyddogaeth, sy'n adlewyrchu PCC.

Fodd bynnag, gwahaniaeth sylfaenol yw'r gofyniad am Ddatganiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas gyda'r polisi yn cyfeirio atynt ar gyfer datblygiadau mawr yn unig, tra bod Pennod 6 yn argymhell y dylai pob cynnig gyflwyno un. Bydd y polisi yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r gofyniad hwn (cyfeirir at yr ymateb isod mewn perthynas â PSD3).

Yn ogystal, o ystyried y pwyslais ar adfer natur, efallai na fydd blaenoriaethu ansawdd a chyflwr a gynhwysir yn y polisi hwn bellach yn cael ei ystyried yn gyson â pholisi cenedlaethol a gellid ei hepgor.

PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

Mae Polisi PSD4 yn cyd-fynd yn dda â phwyslais diwygiedig Pennod 6 ar ddiogelu a gwella coed, coetiroedd a gwrychoedd fel cydrannau allweddol o Seilwaith Gwyrdd a Glas. Mae'n cyd-fynd â'r gofyniad i osgoi effeithiau, gwneud iawn yn briodol am golled, a sicrhau buddion net i fioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae paragraff 6.4.42 yn trafod plannu cydadferol (gan argymhell o leiaf 3 choeden o fath a maint tebyg ar gyfer pob 1 goeden sy'n cael ei cholli). Cyfeirir at gynnwys datganiad y Cyngor ar gyfer Sesiwn Gwrandawriad 1.

Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Nodir bod PCC hefyd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i bolisi a deddfwriaeth mewn perthynas ag ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Mae paragraff 4.2.10 yn berthnasol i gynhyrchu CDLlau gan nodi y gellir cyflwyno mesurau i gyfyngu ar ddeiliadaeth anheddau, ond dylid ategu hyn gan 'dystiolaeth leol gadarn'. Gweler ymateb y Cyngor i Gwestiwn 10 yn Sesiwn Gwrandawriad 2 sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol am y mater hwn. Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn briodol rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn yn ystod yr Archwiliad, er mwyn sicrhau bod y CDLI yn rhoi ystyriaeth lawn i'r mater.

Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio

Cyhoeddwyd y diweddariadau diweddaraf i'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mai 2024. Mae'r diweddariad hwn, ynghyd â fersiynau cynharach, yn cynnwys nifer o newidiadau i barthau llifogydd 2 a 3 ledled Cymru ac yn mapio gwelliannau i'r parthau amddiffynnol sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15).

Yng ngoleuni'r wybodaeth ddiweddaraf, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Cyngor adolygu'r polisiâu a'r dyraniadau safle yn y CDLI diwygiedig a darparu ymateb sy'n nodi unrhyw bolisiâu neu ddyraniadau safle sy'n gwrthdaro â gofynion TAN 15 neu'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP), egluro sut yr ymdrinnir â'r materion hyn a nodi a fydd angen gwneud gwelliannau i'r CDLI diwygiedig a gyflwynwyd.

Mae'r FMfP yn adlewyrchu'r wybodaeth orau sydd ar gael mewn perthynas â llifogydd ond nid oes ganddo statws swyddogol nes bod y TAN15 newydd yn cael ei fabwysiadu. Serch hynny, mae'r CDLI Diwygiedig yn ystyried y FMfP ac maent wedi llywio'r broses o ddewis y safle.

Gweler Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol CSD226 o Safleoedd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo ar gyfer asesiad o oblygiadau'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar ddyraniadau CDLI diwygiedig arfaethedig. Roedd yr asesiad yn nodi safleoedd yr effeithiwyd arnynt gan berygl llifogydd. Ymhellach i'r asesiad hwn mae'r safleoedd wedi cael eu hadolygu eto yn erbyn y FMfP diweddaraf ac mae'r data hwn wedi'i nodi yn Atodiad 1 yr ymateb hwn.

Rhagwelir y bydd fersiwn ddiwygiedig o TAN15 yn cael ei chyhoeddi, ac os bydd hyn yn digwydd cyn mabwysiadu'r CDLI Diwygiedig, wedyn gellir ystyried ei bod yn briodol gwneud diwygiadau i'r polisiâu canlynol i adlewyrchu ei gynnwys. Fodd bynnag, yn ei absenoldeb mae'r TAN15 presennol (2004) yn parhau i fod yn weithredol ac nid yw'n adlewyrchu cynnwys y Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio nac i'w hystyried.

CCH5: Mae Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd yn cyfeirio at y profion cyfiawnhad mewn polisi cenedlaethol a'r Mapiau Cyngor Datblygu. Gellir ystyried ei bod yn briodol cynnwys cyfeiriad at Barth Llifogydd 3 o fewn y FMfP a phrawf cyfiawnhad diwygiedig pe bai un yn cael ei gyhoeddi yn y TAN15 diwygiedig.

Mae paragraff 11.522 yn rhoi trosolwg o'r Mapiau Cyngor Datblygu a'r parthau llifogydd a nodir ynddynt. Dylid diwygio hyn hefyd i gyfeirio at y FMfP a'r parthau llifogydd a nodir ynddo.

Mae paragraff 11.526 yn cyfeirio at y gofynion cyfiawnhad ac asesu sydd wedi'u cynnwys yn TAN15. Efallai y bydd angen newid hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r TAN15 newydd.

Cynnwys y Cynllun

Er ein bod yn nodi bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i lunio cynnwys y CDLI diwygiedig, serch hynny mae nifer o feysydd o'r Cynllun y mae angen eglurhad pellach yn eu cylch a/neu y mae angen eu hadolygu. Mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â'r canlynol:

- **Strwythur (cynllun a rhifo) y polisïau yn y Cynllun, sy'n amrywio'n sylweddol drwy'r ddogfen. Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb, gofynnir i'r Cyngor ddiwygio Polisïau HOM3, HOM7, HOM8, AHOM1, SP7, EME1, VE1, VE2, VE3, PSD3, PSD4, PSD5, RD3, NE1, NE2, NE3, NE6, NE7, BHE1, CCH1, CCH2, CCH3, SP17, MR1, MR3, SP19 a WM2 i adlewyrchu strwythur pennaf polisïau a ddangosir gan Bolisïau SP1, PSD1 a PSD12.**

Ymateb

Nodir y sylw uchod yn briodol a bydd y diwygiadau i'r polisïau y gofynnwyd amdanynt yn cael eu gwneud a'u cynnwys fel rhan o'r newidiadau yn sgil materion sy'n codi. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw welliannau pellach sy'n deillio o ystyried polisïau drwy'r archwiliad yn cael eu cynnwys o fewn un newid arfaethedig.

- **Polisïau SP1, SP4, SP13, SP17, HOM2, EME4 a GTP1 y dylid eu diwygio i gyfeirio at Bolisi SP3, a**

Ymateb

Nodir y sylw uchod yn briodol a bydd y diwygiadau i'r polisïau y gofynnwyd amdanynt yn cael eu gwneud a'u cynnwys fel rhan o'r newidiadau yn sgil materion sy'n codi. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw welliannau pellach sy'n deillio o ystyried polisïau drwy'r archwiliad yn cael eu cynnwys o fewn un newid arfaethedig.

- **Dylid diwygio polisïau SP10, SG2, MR1, INF3, NE4, CCH4, CCH5 a PSD8 i ddileu'r cyfeiriad at y '*Cyngor / Awdurdod Lleol*', a**

Ymateb

Nodir y sylw uchod yn briodol a bydd y diwygiadau i'r polisïau y gofynnwyd amdanynt yn cael eu gwneud a'u cynnwys fel rhan o'r newidiadau yn sgil materion sy'n codi. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw welliannau pellach sy'n deillio o ystyried polisïau drwy'r archwiliad yn cael eu cynnwys o fewn un newid arfaethedig.

- **Ar gyfer cyflawnrwydd, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Cyngor ddarparu niferoedd cynrychiolaeth ar gyfer y sylwadau a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu sylwadau mewn perthynas â Pholisïau SP3, PSD3, INF5 a NE3, a darparu ymateb i'r materion a godwyd.**

Ymateb

- Polisi PSD3 - 5739;
- Polisi INF5 - 5736; • Polisi NE3 – 5750;
- Polisi SP3 - nid oes unrhyw sylw wedi'i gyflwyno gan CNC.

PSD3

Ceir ymateb i PSD3 ar dudalen 732 o Atodiad 12 yr Adroddiad Ymgynghori:

[Microsoft Word - Atodiad 12 - Cyfarwyddiadau \(llyw.cymru\)](#) .

Mae'r ymateb cychwynnol fel y nodir yn yr adroddiad ymgynghori (gweler y ddolen uchod) fel a ganlyn:

'Nodwyd y sylwadau.

Dylid nodi, o ystyried newidiadau dilynol i Bennod 6 o PCC, y bydd angen datganiad seilwaith gwyrdd a glas ar bob cais cynllunio bellach (nid datblygiadau mawr yn unig).

Bydd angen ystyriaeth yn yr archwiliad.'

Yng ngoleuni cyhoeddi Rhifyn 12 Polisi Cynllunio Cymru ac yn benodol y newidiadau mewn perthynas â Phennod 6, darperir yr ymateb atodol canlynol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cais gynnwys Datganiad Seilwaith Gwyrdd a Glas. Gweler ein hymateb uchod yn cynnig gwelliannau i PSD3. Gwneir diwygiadau pellach i baragraffau 11.298 ac 11.299 i adlewyrchu gofynion polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â pharatoi Datganiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas.

Cynigir hefyd i ddiwygio maen prawf 4 i'w ddarllen fel a ganlyn:

'Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fod yn amlswyddogaethol trwy integreiddio swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas i gyflawni amcanion cyfunol sydd o fudd i Fioamrywiaeth, Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, Iechyd a Llesiant, Ymdeimlad o Le, a'r Economi; a lle na fydd hyn yn peryglu pwrpas y Seilwaith Gwyrdd a Glas;'

Mewn perthynas ag awgrym yr ymatebydd i gynnwys maen prawf newydd 6, mae'r geiriad fel y cynigir yn adlewyrchu datganiad ategol ac nid gofyniad polisi. Fodd bynnag, cynigir cynnwys y geiriad fel rhan o destun ategol y polisi o dan yr adran 'Bioamrywiaeth'.

Nodir yn briodol effaith bosibl goleuadau ar gadwraeth bywyd gwyllt. Gwneir diwygiadau pellach i baragraffau 11.298 ac 11.299 i adlewyrchu gofynion polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â pharatoi Seilwaith Gwyrdd a Glas a ddarperir at y diben hwnnw. O ganlyniad, cynigir y maen prawf polisi newydd canlynol:

'6. Osgoi goleuo Seilwaith Gwyrdd a Glas a ddarperir at ddibenion cadwraeth bywyd gwyllt.'

Bydd y newidiadau arfaethedig uchod yng ngeiriad y polisi a'i destun ategol yn rhan o'r Newidiadau yn sgil Materion sy'n Codi.

Dylid nodi bod CCA mewn perthynas â'r CDLI Diwygiedig yn cael ei baratoi mewn perthynas â Seilwaith Gwyrdd a Glas a fydd yn cynnwys canllawiau ar gynnwys Datganiadau Seilwaith Gwyrdd a Glas yn ogystal â materion eraill sy'n ymwneud â dylunio ac ymgorffori Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn datblygiadau newydd.

INF5

Mae'r ymateb i INF5 wedi'i gynnwys ar dudalen 679 o Atodiad 12 yr Adroddiad Ymgynghori: [Microsoft Word - Atodiad 12 - Cyfarwyddiadau \(Ilyw.cymru\)](#).

Mae'r ymateb cychwynnol fel y nodir yn yr adroddiad ymgynghori (gweler y ddolen uchod) fel a ganlyn:

'Dylid ystyried natur ddatblygol y llwybr effaith hwn, y datblygiad cysylltiedig mewn dealltwriaeth wyddonol, a'r atebion lliniaru a'r canllawiau perthnasol yn dilyn hynny – ffactorau nad ydynt yn cyd-fynd yn dda â phroses y cynllun datblygu. Fel yr eglurir o fewn 2il Adendwm yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) (Cyf 61, Atodiad A), roedd yr argymhellion a wnaed ym mharagraff 4.2.11 er budd penodoldeb, ac ni chredir eu bod yn effeithio ar gadernid y cynllun p'un a ydynt yn cael sylw (neu beidio) wedi hynny.'

Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried ymhellach yn ystod yr archwiliad.'

Mae'r ymateb atodol canlynol wedi'i ddarparu.

Wrth gyfeirio at yr argymhelliad ym mharagraff 4.2.11 o Adroddiad Adendwm yr ARhC (Chwefror 2023) cynigir diwygio INF5 i gynnwys y geiriad canlynol ar ddiwedd y Polisi.

'Bydd seilwaith o'r fath yn cael ei ganiatáu dim ond os gellir arddangos nad oes yna unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd ACAau afonol sy'n sensitif i ffosfforws'

Bydd y newidiadau arfaethedig uchod yng ngeiriad y polisi yn rhan o'r Newidiadau yn sgil Materion sy'n Codi.

NE3

Mae'r ymateb i NE3 wedi'i gynnwys ar dudalen 792 o Atodiad 12 yr Adroddiad Ymgynghori: [Microsoft Word - Atodiad 12 - Cyfarwyddiadau \(Ilyw.cymru\)](#).
Ymateb:

'Sylwadau a nodir.

Mae Polisi NE2 yn darparu'r eglurder y gofynnir amdano mewn perthynas ag amgylchiadau eithriadol.' **Cywiriad: dylai'r cyfeiriad polisi yn yr adroddiad ymgynghori gyfeirio at Bolisi NE3 nid NE2.

Mae'r ymateb atodol canlynol wedi'i ddarparu.

Yng ngoleuni'r newidiadau i'r Polisi Cenedlaethol mewn perthynas â Phennod 6 o PCC, cynigir y dylid diwygio'r polisi i adlewyrchu'r dull fesul cam fel y'i cynhwysir yn y canllawiau. Yn hyn o beth mae maen prawf 1 o'r polisi yn cynnwys cyfeiriad at yr 'hierarchaeth liniaru'. Dylai hyn gael ei newid i 'ddull fesul cam' gyda newidiadau canlyniadol i'r testun ategol. Bydd eglurder pellach ar y dull fesul cam yn cael ei gynnwys mewn CCA sydd ar ddod.

Cynigir hefyd i ddiwygio maen prawf 2 i gynnwys 'y bydd angen ei gwblhau cyn dechrau' ar ddiwedd y maen prawf.

Nodir bod PCC yn cynnwys nifer o gyfeiriadau at amgylchiadau eithriadol neu gwbl eithriadol ym Mhennod 6 ac felly ystyrir bod y dull yn parhau i fod yn gydnaws â'i ddarpariaethau. Er mwyn cynorthwyo i ddehongli ystyr y polisi, bwriedir i'r geiriad canlynol gael ei ychwanegu i'r testun ategol:

'O dan amgylchiadau eithriadol, gallai'r angen am ddatblygiad wrthbwysu'r angen i ddiogelu safle penodol. Mewn achosion o'r fath, dylid ystyried yr effaith yng ngoleuni'r dull fesul cam o liniaru, digolledu a gwella ar gyfer colli nodweddion o'r fath i sicrhau bod cynefinoedd bywyd gwyllt amgen yn cael eu darparu neu fod cynefinoedd yn cael eu creu er mwyn sicrhau nad oes unrhyw golled net mewn bioamrywiaeth gyffredinol yn yr ardal neu'r nodwedd.'

Mae'r gwelliannau uchod yn sicrhau bod y polisi'n parhau i adlewyrchu polisi cenedlaethol fel y nodir yn PCC a bydd yn cael ei nodi fel rhan o'r newidiadau yn sgil materion sy'n codi.

Mae rhestr gychwynnol o'r newidiadau arfaethedig i'r CDLI hefyd ynghlwm yn Atodiad 2, fel y gofynnwyd amdani.

Yn gywir

Rhodri Griffiths

Head of Place and Sustainability / Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd

Atodiad 1 – Dyraniadau yn erbyn Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio

Nodir y cyfeiriad a wnaed at y Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio a TAN15 yn briodol. Fodd bynnag, er bod y Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynrychioli'r wybodaeth orau sydd ar gael am berygl llifogydd ac yn cael ei ddefnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i lywio eu cyngor cynllunio, roedd TAN15 diwygiedig yn cyd-fynd â'u cyhoeddiad cychwynol. Byddai'r TAN diwygiedig drafft a oedd yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â'u defnydd wrth wneud penderfyniadau wedi darparu fframwaith trwy'r hwn y byddai'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a'i barthau llifogydd, gan gynnwys dŵr wyneb, wedi cael eu gweithredu ar lefel llunio cynlluniau a pholisi. Byddai hyn wedi cynnwys y profion cyfiawnhad diwygiedig. Fodd bynnag, er y cafodd y TAN diwygiedig ei gyhoeddi ar ffurf ddrafft, ni chafodd ei fabwysiadu fel polisi cenedlaethol ac felly ni ellir rhoi pwyslais mawr arno. Yn absenoldeb y TAN15 diwygiedig, mae'r TAN15 (2004) presennol yn parhau i fod yn bolisi cynllunio cenedlaethol.

O ganlyniad, ac fel yr adlewyrchir gan CNC, nid oes gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio sy'n dangos sut y bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar risg llifogydd, statws swyddogol nes bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r TAN15 diwygiedig.

Nodir ar adeg ysgrifennu nad oes unrhyw arwydd pendant ar gyhoeddi TAN15 diwygiedig pellach nac arwydd clir o'i gynnwys.

Wrth ymateb i'r materion sy'n gysylltiedig â pherygl llifogydd ac fel rhan o baratoi'r TAN15 Diwygiedig, gofynnwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol adolygu eu Hasesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol yn unol â'r TAN15 diwygiedig drafft ar y pryd fel y'i cyhoeddwyd ym mis Medi 2021 a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Nodwyd y gofyniad hwn yn llythyr Llywodraeth Cymru dyddiedig 15 Rhagfyr 2021 ac yna llythyr gan y Gweinidog dyddiedig 23 Tachwedd 2021. Fel y gofynnwyd amdano, cynhaliwyd Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn rhanbarth De-orllewin Cymru (CSD227) a'i ategu gan arfarniad o safleoedd ar lefel leol yn Sir Gaerfyrddin (CSD226).

Mae llythyr Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi: 'Pan fydd cynlluniau'n cael eu hadolygu, rhaid i'r ystyriaethau perygl llifogydd sy'n bwydo i mewn i'r strategaeth aneddiadau a'r dyraniadau safle fod yn unol â'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd fydd y brif ffynhonnell dystiolaeth i lywio'r elfennau hynny o'r cynllun a pholisïau perygl llifogydd penodol yn lleol.' Yn hyn o beth, cynhaliwyd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a lywiodd yn glir y gwaith o baratoi'r 2il fersiwn Adneuo o'r CDLI Diwygiedig. Fodd bynnag, nodir na ddaeth y TAN15 newydd fel y cyfeirir ato a'i ganllawiau mewn perthynas ag ystyried cynnwys y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio i rym.

Wrth baratoi'r CDLI Diwygiedig mae'r Cyngor wedi cyfeirio'n glir at y Map Llifogydd ar gyfer cynllunio yn ogystal â'r TAN15 presennol a'r Mapiau Cyngor Datblygu – cyfeirir at y sail dystiolaeth yn hyn o beth (dogfennau cyflwyno, CSD228, CSD227, CSD226). Fodd bynnag, nodir bod diweddariad o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio wedi'i gynhyrchu ym mis Mai 2024 ar ôl paratoi'r 2il CDLI Diwygiedig Adneuo - y mae ei oblygiadau yn cael eu hystyried yn y tabl a nodir isod. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr ymateb, er ei fod wedi'i lywio gan gynnwys y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel un sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, hefyd yn adlewyrchu absenoldeb polisi cynllunio cenedlaethol wedi'i ddiweddarau i gefnogi ei ddehongliad o safbwynt gwneud penderfyniadau.

Enw'r Safle	Cyfyngiad Llifogydd	Sylwadau
Safleoedd tai		
Clwstwr 1		
PrC1/h3 – 113 Heol y Prior, Caerfyrddin	Mae cyfran fach o'r safle (llai nag 1%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu.
SuV15/h1 – Llanarthne Yr Ysgol	Mae tua 20% o'r safle yn dod o fewn Dŵr Ffo a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu.
SuV16/h1 - Heol Llwynddewi	Mae cyfran fach o'r safle (tua 5%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu.

<p>PrC1/MU1 – Gorllewin Caerfyrddin</p>	<p>Mae cyfran fach o'r safle (tua 10%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3)</p>	<p>Mae'r safle'n ardal fawr iawn o ddefnydd cymysg, ac mae elfennau'r safle sy'n destun cyfyngiadau llifogydd afonol wedi'u heithrio rhag cael eu datblygu yn y prif gynllun fel y nodir yn y Briff Cynllunio a Datblygu mabwysiedig. Mae gan y safle hanes o ddarparu tai a sawl caniatâd cynllunio dilys.</p> <p>Mae graddau gorlifdir 2 a 3 ar gyfer afonydd a'r môr wedi'u cyfyngu'n dda i goridor yr afon. Felly, dylai fod yn bosibl dod o hyd i ddatblygiad adeiledig yn gyfan gwbl ym mharth llifogydd 1.</p> <p>Efallai y bydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n benodol i'r safle yn ystod y cam ymgeisio ar gyfer rhannau o'r safle sydd mewn ardaloedd perygl llifogydd, gan ddangos sut y bydd y perygl llifogydd yn cael ei liniaru drwy ddyluniad y safle. Efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol ac adolygiad o'r modelu llifogydd presennol i gynnwys ffosydd a llednentydd Nant Tawelan a allai ddylanwadu ar faint a dyfnder llifogydd o fewn y safle.</p> <p>Bydd goblygiadau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn cael eu hystyried ar lefel cais cynllunio gyda'r dull a'r wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar natur y perygl o lifogydd. Gall hyn gynnwys integreiddio datrysiadau dylunio a gosod, cyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a allai ddangos dull dilyniannol gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd a chan fodelu'r cwrs dŵr, lle bo hynny'n briodol.</p>
---	--	---

		<p>Mewn perthynas â'r dŵr wyneb a llifogydd o gyrsgiau dŵr bach, nodir y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel ystyriaeth faterol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei ddehongliad yn nhermau polisi yn cael ei lywio gan bolisi cynllunio cenedlaethol o ganlyniad i'r oedi wrth fabwysiadu'r TAN15 diwygiedig.</p> <p>Byddai'r uchod yn destun adolygiad ar gyhoeddi'r TAN15 diwygiedig.</p>
SuV5/h1 – Tir ym Maesglasnant	Mae cyfran fach o'r safle o fewn Parth Llifogydd CNC 3 Afonydd	Mae'r rhan o'r safle yr effeithir arni gan y Parth Llifogydd a nodwyd wedi cael ei ddatblygu.
PrC1/h18 – Castell Howell	Mae cyfran fach o'r safle (llai nag 1%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3)	Mae caniatâd cynllunio amlinellol gan y safle.
SuV3/h1 - Tir y tu ôl i Faesgriffith	Mae rhan o'r safle (tua 20%) o fewn Parth Llifogydd CNC 3 Afonydd	Mae caniatâd cynllunio llawn gan y safle.
PrC1/h8 – Heol Llansteffan	Mae cyfran fach o'r safle (tua 10%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2)	<p>Bydd goblygiadau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn cael eu hystyried ar gam cais cynllunio gyda'r dull a'r wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar natur y perygl o lifogydd. Gall hyn gynnwys integreiddio datrysiadau dylunio a gosod, cyflwyno Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd a allai ddangos dull dilyniannol gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd a chan fodelu'r cwrs dŵr, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mewn perthynas â'r dŵr wyneb a llifogydd o gyrsgiau dŵr bach, nodir y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel ystyriaeth faterol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei ddehongliad yn nhermau polisi yn cael ei lywio gan bolisi cynllunio cenedlaethol o ganlyniad i'r oedi wrth fabwysiadu'r TAN15 diwygiedig.</p> <p>Byddai'r uchod yn destun adolygiad ar gyhoeddi'r TAN15 diwygiedig.</p>

<p>PrC1/h12 – Heol Castell Pigyn</p>	<p>Mae cyfran fawr o'r safle (tua 93%) yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC 2 ac mae cyfran fach iawn (tua 1%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3)</p>	<p>Wrth ddyrannu'r safle yn y 2il CDLI Adneuo, roedd y safle y tu allan i barth llifogydd C2 yn y Mapiau Cyngor Datblygu (DAMs). Fodd bynnag, mae'r safle bellach yn cael ei nodi fel un ym Mharth Llifogydd 2 ar gyfer afonydd yn ôl Map Llifogydd CNC ar gyfer Cynllunio. Mae hyn yn cynrychioli sefyllfa wedi'i diweddarau o'r Map Llifogydd blaenorol ar gyfer Cynllunio a'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ac mae'n effeithio ar elfen sylweddol o'r safle.</p> <p>Mewn perthynas â'r risg o lifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel ystyriaeth faterol, fe'i nodir yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei ddehongliad yn nhermau polisi yn cael ei lywio gan bolisi cynllunio Cenedlaethol o ganlyniad i'r oedi wrth fabwysiadu'r TAN15 diwygiedig.</p> <p>Er y nodir yr effaith llifogydd fel y nodir ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ni fwriedir hepgor y safle, hyd nes y ceir rhagor o ganllawiau polisi drwy TAN15 diwygiedig pellach. Bydd yn ofynnol i unrhyw gais cynllunio i gyflwyno'r safle ystyried y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a dylai gynnwys tystiolaeth briodol gan gynnwys ACLI manwl.</p> <p>Bydd goblygiadau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn cael eu hystyried ar gam cais cynllunio gyda'r dull a'r wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar natur y perygl o lifogydd. Gall hyn gynnwys integreiddio datrysiadau dylunio a gosod, cyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a allai ddangos dull dilyniannol gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd a chan foddelu'r cwrs dŵr, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Byddai'r uchod yn destun adolygiad ar gyhoeddi'r TAN15 diwygiedig.</p>
--------------------------------------	---	--

SuV12/h1- Ger Gwyn Villa	Mae cyfran fach o'r safle (tua 1%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2)	<p>Bydd goblygiadau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn cael eu hystyried ar gam cais cynllunio gyda'r dull a'r wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar natur y perygl o lifogydd. A gall hyn gynnwys integreiddio datrysiadau dylunio a gosod, cyflwyno Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd a allai ddangos dull dilyniannol gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd a chan fodelu'r cwrs dŵr, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mewn perthynas â'r dŵr wyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr bach, nodir y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel ystyriaeth faterol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei ddehongliad yn nhermau polisi yn cael ei lywio gan bolisi cynllunio cenedlaethol o ganlyniad i'r oedi wrth fabwysiadu'r TAN15 diwygiedig.</p> <p>Byddai'r uchod yn destun adolygiad ar gyhoeddi'r TAN15 diwygiedig.</p>
--------------------------	--	--

SuV17 / h1 - Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf	Mae cyfran fach o'r safle (tua 10%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2 a 3)	<p>Bydd goblygiadau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn cael eu hystyried ar lefel cais cynllunio gyda'r dull a'r wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar natur y perygl o lifogydd. A gall hyn gynnwys integreiddio datrysiadau dylunio a gosod, cyflwyno Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd a allai ddangos dull dilyniannol gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd a chan fodelu'r cwrs dŵr, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mewn perthynas â'r dŵr wyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr bach, nodir y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel ystyriaeth faterol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei ddehongliad yn nhermau polisi yn cael ei lywio gan bolisi cynllunio cenedlaethol o ganlyniad i'r oedi wrth fabwysiadu'r TAN15 diwygiedig.</p> <p>Byddai'r uchod yn destun adolygiad ar gyhoeddi'r TAN15 diwygiedig.</p>
--	---	--

SuV14/h1 – Fferm Cefn	Mae cyfran fach o'r safle (tua 15%) yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2 a 3)	<p>Bydd goblygiadau dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach yn cael eu hystyried ar gam cais cynllunio gyda'r dull a'r wybodaeth sydd ei hangen yn dibynnu ar natur y perygl o lifogydd. Gall hyn gynnwys integreiddio datrysiadau dylunio a gosod, cyflwyno Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd a allai ddangos dull dilyniannol gyda'r defnydd sydd mwyaf agored i niwed ar y tir lle mae'r risg isaf o lifogydd a chan foddu'r cwrs dŵr, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Mewn perthynas â'r dŵr wyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr bach, nodir y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio fel ystyriaeth faterol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ei ddehongliad yn nhermau polisi yn cael ei lywio gan bolisi cynllunio cenedlaethol o ganlyniad i'r oedi wrth fabwysiadu'r TAN15 diwygiedig.</p> <p>Byddai'r uchod yn destun adolygiad ar gyhoeddi'r TAN15 diwygiedig.</p>
-----------------------	---	---

Clwstwr 2

PrC2/h3 – Parc y Strade	Mae tua 60% yn dod o fewn parth llifogydd CNC Afonydd (parth 2 a 3) – Mae cornel y safle'n dod o fewn Llifogydd CNC Moroedd (parth 2) – Tua 30% Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
PrC2/h6 - 107 Heol yr Orsaf	Mae 100% yn dod o fewn parth llifogydd CNC afonydd (parth 2) - Mae 100% o'r safle yn dod o fewn parth llifogydd CNC moroedd (parth 3) - Mae'r safle'n gorwedd ger Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2 a 3). Mae 100% o'r safle yn dod o fewn Parth Amddiffynnol TAN15 CNC.	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu

PrC2/h7 - 13-15 Heol yr Orsaf	Mae 100% yn dod o fewn parth Llifogydd CNC afonydd (parth 3) - Mae tua 1% o'r safle yn dod o fewn parth Llifogydd CNC moroedd (parth 2 a 3) - Mae tua 20% o'r safle yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2 a 3). Mae 1% o'r safle yn dod o fewn Parth Amddiffynnol TAN15 CNC.	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
PrC2/h9 - 3-5 Heol Goring	Mae tua 15% yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3) (parth 2)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
PrC2/h12 - Llys yr Hen Felin, Canol y Dref	Mae tua 40% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Afonydd (parth 2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
PrC2/h19 - Genwen, y Bryn	Mae tua 5% yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
SeC3/h2 - Llys Felin	Mae tua 25% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Moroedd (parth 2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
SeC4/h3 - Teras Glanmor	Mae tua 3% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Afonydd (parth 2). Mae 60% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Moroedd (parth 2)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
SeC5/h1 - Garreglwyd	Mae tua 25% yn dod o fewn Parth Llifogydd CNC Moroedd (parth 2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu

SeC8/h1 - Ffos Las	Mae tua 20% o'r safle yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2 a 3)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
SuV22/h1 - Gerddi Gwenllian	Mae tua 20% yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2)	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu
PrC2/h2 - Hen Labordy Lôn Pen y Fai	Mae tua 10% o'r safle yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2)	Mae'r safle'n cael ei adeiladu
SeC8/h3 - Golwg Gwendraeth	Mae tua 3% o'r safle yn dod o fewn Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC (parth 2 a 3)	Mae'r safle'n cael ei adeiladu
SuV23/h1 - Clos y Parc	Ger Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach CNC parth 2	Mae'r safle'n cael ei adeiladu
